Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
95/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:
03/10/2023

# Arolwg o Bobl sy’n Nofio mewn Dŵr Mewndirol Awyr Agored yng Nghymru

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron

ISBN digidol 978-1-83504-688-3

Arolwg o Bobl sy'n Nofio mewn Dŵr Mewndirol Awyr Agored yng Nghymru

Awduron: Rossana Palma ac Aimee Marks, Tîm Ymchwil Hinsawdd a'r Amgylchedd, Llywodraeth Cymru

Adroddiad ymchwil llawn: Palma, R; Marks, A. *Arolwg o Bobl sy'n Nofio mewn Dŵr Mewndirol Awyr Agored yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 95/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/dyfroedd-ymdrochi-mewndirol-yng-nghymru-sylwadau-gan-nofwyr

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Aimee Marks

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Geirfa... 4

1. Cyflwyniad/Cefndir 6

Cyd-destun 6

Ymchwil flaenorol a gomisiynwyd ar y pwnc 7

Ymchwil gyfredol 7

2. Methodoleg 8

Demograffeg 9

Dadansoddi 9

3. Canfyddiadau 12

Gweithgarwch nofio yn yr awyr agored 12

Arferion a phrofiadau o ran gweithgarwch nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored 13

Rhwystrau i nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored 19

Dynodi dyfroedd mewndirol awyr agored yng Nghymru 20

Cyfleusterau ac achrediadau ar safleoedd dŵr mewndirol awyr agored dynodedig 23

Ymatebion ansoddol ychwanegol cyffredinol 25

4. Casgliadau 28

Atodiad A – Arolwg Nofwyr Mewndirol Awyr Agored 31

Atodiad B – Oedran ymatebwyr 38

Atodiad C – Ymatebwyr yn ôl awdurdod lleol o gymharu â data Cyfrifiad 2021 39

Atodiad D: Dadansoddiad o’r ymatebwyr ar gyfer pob cwestiwn 41

**Rhestr o dablau**

Tabl 2.1 – Ymatebwyr wedi'u grwpio yn ôl eu hymatebion ynghylch arferion nofio ............ 11

Tabl 3.1: Ffactorau wedi'u rhoi yn nhrefn eu pwysigrwydd i'r ymatebwyr wrth ddewis ble a phryd i nofio mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr – ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored ............ 17

Tabl 3.2: Ffactorau ychwanegol y nododd yr ymatebwyr eu bod yn bwysig iddynt wrth ddewis ble a phryd i nofio mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr – ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored ............ 18

**Rhestr o ffigurau**


Ffigur 3.1: Ers pryd yr oedd yr ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored wedi bod yn gwneud hynny ........ 14

Ffigur 3.2: Pa mor aml yr oedd yr ymatebwyr yn nofio mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr – yr holl ymatebwyr ........ 15

Ffigur 3.3: Rhesymau pam yr oedd yr ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored yn nofio mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr ........ 16

Ffigur 3.4: Offer diogelwch/gwybodaeth y dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn chwilio amdanynt ar safleoedd dŵr mewndirol – ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored ........ 19

Ffigur 3.5: Y rhesymau y mae'r ymatebwyr yn meddwl eu bod yn gwneud nofio mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yn llai deniadol i bobl – yr holl ymatebwyr ........ 20

Ffigur 3.6: Cyfraddau cytuno'r ymatebwyr â'r datganiadau a restrwyd – yr holl ymatebwyr ........ 21

Ffigur 3.7: Rhwystrau i ddynodi dyfroedd mewndirol yng Nghymru – yr holl ymatebwyr ........ 23

Ffigur 3.8: Cyfleusterau y byddai'r ymatebwyr am eu gweld ar safleoedd dŵr mewndirol dynodedig yng Nghymru – yr holl ymatebwyr ........ 24

## Geirfa

| Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Safleoedd dŵr mewndirol | Safleoedd dŵr megis afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr (nid safleoedd dŵr arfordirol megis traethau). |
| Gweithgareddau dŵr hamdden | Gweithgareddau yn y dŵr ac ar y dŵr, megis pysgota, caiacio/canŵio, padlfyrddio, syrffio a nofio. |
| Safleoedd heb eu rheoli (llynnoedd/cronfeydd dŵr) | Lleoliadau dŵr ymdrochi nad oes ganddynt gyfleusterau (e.e. toiledau, caffi, cyfleusterau newid). |
| Safleoedd wedi'u rheoli (llynnoedd/cronfeydd dŵr) | Lleoliadau dŵr ymdrochi sydd â chyfleusterau (e.e. toiledau, caffi, cyfleusterau newid). |
| Cod QR | Mae cod QR yn god y mae modd i beiriant ei ddarllen, ac mae'n cynnwys rhesi o sgwariau du a gwyn a ddefnyddir fel rheol i storio URLs neu wybodaeth arall sydd i'w darllen gan y camera ar ffôn clyfar neu ar ddyfais glyfar arall. |
| Achrediad y Faner Las | Mae'r Faner Las yn ddyfarniad gwirfoddol ar gyfer traethau, marinâu a chychod twristiaeth gynaliadwy. I fod yn gymwys ar gyfer y Faner Las, rhaid bodloni a pharhau i fodloni cyfres o feini prawf llym sy'n ymwneud â'r amgylchedd, addysg, diogelwch a hygyrchedd. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma. |
| Achrediad SAFE Cymru | Mae S.A.F.E Cymru (*Safe Aquatic Facility Endorsement*) yn hybu mwynhad pobl o nofio mewn dŵr agored ac yn hybu eu diogelwch, trwy bedwar amcan strategol allweddol, sef: |

| | |
|---|---|
| | - Cyfleusterau diogel: Achrediad gan gorff llywodraethu cenedlaethol, sydd wedi'i ddylunio i gynnwys proses asesu gefnogol a pharhaus.<br>- Cyngor ac arweiniad: Y wybodaeth, y gefnogaeth a'r cyngor diweddaraf gan gyrff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer cyfranogwyr ym maes nofio mewn dŵr agored ar bob lefel.<br>- Addysg a hyfforddiant: Rhaglen hyfforddiant helaeth gydag adnoddau digonol i gynorthwyo'r gweithlu gweithredol mewn cyfleusterau a'n cyfranogwyr ar bob lefel.<br>- Cyfranogiad: Llwybr clir yng Nghymru, sy'n helpu ein cenedl i fwynhau nofio mewn dŵr agored, i gyfranogi a chystadlu yn y gamp ac i ddysgu amdani.<br>Mae mwy o wybodaeth ar gael ar S.A.F.E Cymru – Nofio Cymru |

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

## Cyd-destun

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod poblogrwydd cynyddol nofio yn yr awyr agored a gweithgareddau eraill sy'n seiliedig ar ddŵr, a'r manteision y gallant eu cynnig i gymunedau ledled Cymru o ran iechyd a lles. Mae Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 (Cymru)[1] yn mynnu bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ceisiadau gan y cyhoedd i nodi'n flynyddol ardaloedd ymdrochi poblogaidd yng Nghymru. Mae dŵr ymdrochi yn ddŵr arfordirol neu fewndirol sy'n denu nifer fawr o ymdrochwyr mewn perthynas ag unrhyw seilwaith neu gyfleusterau a ddarperir, neu unrhyw gamau eraill a gymerir, i hyrwyddo ymdrochi ar y safle[2]. Trwy Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 (Cymru), gall safleoedd dŵr gael eu dynodi'n safle ymdrochi os yw ansawdd y dŵr yn cael ei brofi yn ystod y tymor ymdrochi[3] ac yn cael dosbarthiad ansawdd. Amcan y rheoliadau hyn yw diogelu iechyd ymdrochwyr a rhoi gwybod iddynt am beryglon o ran iechyd sy'n gysylltiedig ag ansawdd dŵr gwael.

1.2 Mae sicrhau dŵr ymdrochi o ansawdd uchel yn helpu i gyfrannu at yr amcanion a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[4] am nifer o resymau. Maent yn cynnwys hybu'r nod llesiant i sicrhau 'Cymru iachach' trwy godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ansawdd dŵr, yn ogystal â'r manteision i iechyd corfforol ac iechyd meddwl sy'n deillio o gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden ar safleoedd dŵr ymdrochi. At hynny, mae dynodi dyfroedd ymdrochi er mwyn sicrhau ansawdd dŵr da yn hybu'r nod llesiant i sicrhau 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', yn enwedig trwy gynorthwyo pobl Cymru i ymgymryd â champau megis nofio.

1.3 Ar hyn o bryd, mae 109 o safleoedd dŵr ymdrochi dynodedig yng Nghymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro ansawdd dŵr y safleoedd hynny drwy gydol y tymor ymdrochi er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Mae rhestr o'r safleoedd sydd wedi'u dynodi ar hyn o bryd a gwybodaeth am ansawdd y dŵr i'w gweld ar wefan

---

[1] Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 (legislation.gov.uk)
[2] Dynodi a dad-ddynodi dyfroedd ymdrochi yng Nghymru: canllaw [HTML] | LLYW.CYMRU
[3] 15 Mai – 30 Medi
[4] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion [HTML] | LLYW.CYMRU

Cyfoeth Naturiol Cymru[5]. Ar hyn o bryd, mae 108 o'r safleoedd ymdrochi dynodedig sydd yng Nghymru ar yr arfordir a dim ond un sy'n safle mewndirol (Llyn Padarn).

1.4 I gydnabod y diddordeb cynyddol mewn nofio yn yr awyr agored ar safleoedd dŵr mewndirol mae Llywodraeth Cymru, yn Rhaglen Lywodraethu 2021-26 a ddiweddarwyd er mwyn adlewyrchu'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru[6], wedi ymrwymo i ddechrau *'dynodi dyfroedd mewndirol Cymru ar gyfer hamdden, gan gryfhau'r gwaith o fonitro ansawdd dŵr'.*

**Ymchwil flaenorol a gomisiynwyd ar y pwnc**

1.5 Yn ystod hydref 2022, gwnaeth Tîm Polisi Dŵr Llywodraeth Cymru gomisiynu Beaufort Research i gynnwys cwestiynau yn eu harolwg Omnibws Cymru o 1,000 o bobl yng Nghymru[7]. Nod yr ymchwil hon oedd deall yn well beth yw agweddau'r cyhoedd yng Nghymru at ddyfroedd ymdrochi mewndirol yng Nghymru, beth yw dealltwriaeth y cyhoedd yng Nghymru ohonynt ac i ba raddau y maent yn ymwneud â nhw. Nofio oedd y gweithgaredd dŵr hamdden mwyaf poblogaidd ymhlith yr ymatebwyr, ond roeddent ychydig yn fwy tebygol o wneud hynny mewn lleoliad arfordirol yn hytrach nag mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr. Yn ôl y sawl a ymatebodd i'r arolwg hwn, y prif rwystrau a oedd yn eu hatal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden mewn dŵr mewndirol oedd pryderon am ddiogelwch ffisegol a phryderon am ansawdd y dŵr. Nid oedd y farn ynghylch hyder yn ansawdd y dŵr ar safleoedd dŵr mewndirol yn unfrydol, ac roedd llawer o'r ymatebwyr o blaid dynodi mwy o safleoedd dŵr mewndirol er mwyn hybu ansawdd dŵr.

**Ymchwil gyfredol**

1.6 Dim ond 10 y cant o'r 1,000 o bobl a ymatebodd i arolwg Omnibws Cymru Beaufort a ddywedodd eu bod wedi nofio mewn dŵr mewndirol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Felly, roedd gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn casglu mwy o safbwyntiau gan bobl sy'n nofio yn rheolaidd mewn dŵr mewndirol awyr

---

[5] [Gwybodaeth am Ansawdd Dŵr Ymdrochi yng Nghymru – Cyfoeth Naturiol Cymru]
[6] [Rhaglen lywodraethu: diweddariad | LLYW.CYMRU]
[7] [Dyfroedd ymdrochi mewndirol yng Nghymru: agweddau'r cyhoedd | LLYW.CYMRU]

agored, er mwyn adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ynghylch defnydd pobl o ddŵr mewndirol a'u safbwyntiau ynghylch dynodi safleoedd.

1.7 Cafodd y Tîm Ymchwil Hinsawdd a'r Amgylchedd yng Ngwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru ei gomisiynu gan Dîm Polisi Dŵr Llywodraeth Cymru i gynnal arolwg a oedd yn targedu pobl sy'n nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored, er mwyn llywio'r gwaith o ddynodi dyfroedd ymdrochi mewndirol yng Nghymru yn y dyfodol. Nod yr ymchwil hon yw deall arferion nofio, deall safbwyntiau pobl sy'n nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored ynghylch dynodi, a deall pa nodweddion a chyfleusterau y mae ymatebwyr yn chwilio amdanynt ar safle lle gellir nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored.

## 2. Methodoleg

2.1 Cafodd cwestiynau'r arolwg eu llunio gan Dîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru a'r Tîm Polisi Dŵr – mae sgript yr arolwg i'w gweld yn Atodiad A.

2.2 Cafodd data'r arolwg hwn ei gasglu drwy Smart Survey rhwng 6 Chwefror a 6 Mawrth 2023.

2.3 Cafodd yr arolwg ei ddosbarthu mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn cyrraedd unigolion a oedd wedi bod yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored. Y nod oedd casglu cynifer o safbwyntiau ag a oedd yn bosibl. Cafodd dolen gyswllt â'r arolwg ei rhannu â Nofio Cymru a Surfers against Sewage er mwyn iddyn nhw ei rhannu â'u haelodau, a rhannwyd y ddolen gyswllt ag Adventure Smart Wales er mwyn iddo ef ei rhannu â'i fusnesau. Cafodd dolen gyswllt â'r arolwg ei chynnwys hefyd mewn arolwg arall ynghylch materion cysylltiedig, a gynhaliwyd gan Dŵr Cymru. Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo ar gyfrif Twitter swyddogol Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru, ar gyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfryngau cymdeithasol, ac ym mwletin Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru.

2.4 Ni fwriadwyd i'r arolwg hwn fod yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru nac o bobl sy'n nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored yn fwy cyffredinol, o ystyried mai bach iawn a wyddys am nodweddion eraill nofwyr i allu llywio unrhyw fath o ddull samplu dilys. Felly, ni ddylid cymhwyso'r canfyddiadau yn fwy cyffredinol i bobl eraill sy'n

nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored, na wnaethant gymryd rhan yn yr arolwg. Fodd bynnag, llwyddodd yr arolwg i sicrhau cyfradd ymateb dda (cafwyd 757 o ymatebion cyflawn[8]) sy'n rhoi rhyw hyder y gallai'r canfyddiadau fod yn adlewyrchu o leiaf rhywfaint o'r amrywiaeth o safbwyntiau sy'n bodoli ymhlith pobl sy'n nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored.

2.5 Roedd yr arolwg ar gael i'w gwblhau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Caiff yr holl ddyfyniadau o'r dadansoddiad ansoddol yn yr adroddiad hwn eu cyflwyno yn iaith yr adroddiad (h.y. Cymraeg neu Saesneg). Os cafodd yr ymatebion a ddyfynnir eu rhoi mewn iaith sy'n wahanol i iaith yr adroddiad hwn (cynhyrchwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r adroddiad), maent wedi'u cyfieithu.

**Demograffeg**

2.6 Ni osodwyd unrhyw dargedau ar gyfer ymatebwyr ar draws elfennau demograffig gan nad oedd yr arolwg am eithrio unrhyw safbwyntiau – mae'n weithgaredd hamdden y mae pobl yn cymryd rhan ynddo ar draws Cymru. Cwblhaodd 28 o ymatebwyr yr arolwg yn Gymraeg. Mae Atodiad B yn dangos dadansoddiad o'r ymatebwyr yn ôl oedran: roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr rhwng 41 a 50 oed (32 y cant) a rhwng 51 a 60 oed (36 y cant). O ran lleoliad yr ymatebwyr, roedd cyfran uwch ohonynt yn dod o awdurdod lleol Caerdydd (11 y cant) ac awdurdod lleol Gwynedd (9 y cant) nag o awdurdodau lleol eraill. Mae Atodiad C yn dangos cyfran yr ymatebwyr o awdurdod lleol penodol o gymharu â ffigurau Cyfrifiad 2021, er mwyn darparu cyd-destun.

**Dadansoddi**

2.7 Cafodd gwaith dadansoddi meintiol ei gyflawni yn Microsoft Excel. Roedd sawl cwestiwn yn caniatáu i gyfranogwyr ddewis mwy nag un ateb, felly nid yw canran yr holl opsiynau ymateb yn dod i 100 yn yr achosion hynny. Roedd yr ymatebion yn dangos bod pob un o'r 757 o ymatebwyr yn nofio yn yr awyr agored (boed hynny mewn dŵr arfordirol yn unig, mewn dŵr mewndirol yn unig neu mewn dŵr arfordirol a mewndirol). Rhoddodd 69 o'r ymatebwyr atebion anghyson i'r cwestiynau ynghylch ble'r oeddent yn nofio – gweler tabl 2.1:

[8] Cofnodwyd 241 o ymatebion rhannol ond ni chawsant eu dadansoddi at ddiben yr adroddiad hwn.

- Dywedodd 58 o bobl yng nghwestiwn 4 eu bod yn nofio yn yr awyr agored mewn dŵr arfordirol yn unig, ond gwnaethant ddweud yng nghwestiwn 7 eu bod yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored.
- Dywedodd 11 yng nghwestiwn 4 eu bod yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored, ond gwnaethant ddweud yng nghwestiwn 7 nad oeddent eto wedi nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored.

2.8 Ni chafodd yr ymatebwyr hynny eu cynnwys yn y dadansoddiad ar gyfer cwestiynau ynghylch gweithgarwch nofio cyffredinol a chwestiynau ynghylch nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored yn benodol. Ar gyfer cwestiynau a oedd yn ymwneud ag arferion nofio'r ymatebwyr mewn dŵr mewndirol awyr agored, dim ond pobl a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored (ymatebion cyson) a gafodd eu cynnwys yn y dadansoddiad. Mae dadansoddiad o'r grŵp ymatebwyr a ystyriwyd ar gyfer pob cwestiwn i'w weld yn Atodiad D.

**Tabl 2.1 – Ymatebwyr wedi'u grwpio yn ôl eu hymatebion ynghylch arferion nofio**

| Grŵp ymatebwyr | Nifer y cyfranogwyr |
|---|---|
| Pobl a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored – ymatebion cyson | 639 |
| Pobl a oedd yn nofio mewn dŵr arfordirol yn unig – ymatebion cyson | 49 |
| **Is-gyfanswm ymatebion cyson** | **688** |
| Pobl a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored – ymatebion anghyson | 11 |
| Pobl a oedd yn nofio mewn dŵr arfordirol – ymatebion anghyson | 58 |
| **Is-gyfanswm ymatebion anghyson** | **69** |
| **Yr holl ymatebwyr** | **757** |

2.9 Fodd bynnag, cafodd yr holl ymatebwyr eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r canfyddiadau ar gyfer cwestiynau a oedd yn gofyn am eu safbwyntiau ynghylch rhwystrau i nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored, ynghylch dynodi safleoedd ac ynghylch beth yr hoffent ei weld ar safleoedd nofio mewndirol awyr agored dynodedig. Gwnaed y penderfyniad hwnnw oherwydd nad oedd y cwestiynau dan sylw'n cyfeirio yn benodol at arferion a phrofiadau nofio personol. At hynny, oherwydd bod ganddynt brofiad o nofio yn yr awyr agored yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hynny'n dal yn gallu darparu gwybodaeth ddefnyddiol am ffactorau a allai annog pobl i nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored.

2.10 Roedd dau gwestiwn agored yn yr arolwg yn ogystal â saith cwestiwn caeëdig a oedd yn cynnwys opsiwn 'arall' testun agored. Cafodd y gwaith dadansoddi ansoddol ar gyfer y cwestiynau hynny ei gyflawni gan ddefnyddio meddalwedd MAXQDA i bennu codau ar sail yr ymatebion er mwyn grwpio ymatebion ansoddol. Bu tri ymchwilydd yn ymgymryd â'r gwaith dadansoddi hwn gan ddefnyddio dull anwythol – roedd hynny'n golygu cynhyrchu codau a'u mireinio wrth iddynt

adolygu'r ymatebion. Cyfarfu'r tri ymchwilydd yn rheolaidd i drafod y codau yr oeddent wedi'u pennu, a chafodd ansawdd yr holl ymatebion a'r holl godau ei wirio hefyd gan y prif ymchwilydd er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y codau a gynhyrchwyd a'r ymatebion y cawsant eu pennu iddynt.

## 3. Canfyddiadau

### Gweithgarwch nofio yn yr awyr agored

3.1 Y môr oedd y lle mwyaf cyffredin i nofio yn yr awyr agored (yn ôl 83 y cant o'r 688 o ymatebwyr), yna llynnoedd/cronfeydd dŵr heb eu rheoli ac afonydd (yn ôl 71 y cant a 65 y cant yn y drefn honno). Mewn llynnoedd a chronfeydd dŵr wedi'u rheoli y byddai ymatebwyr yn nofio leiaf (36 y cant). At ei gilydd, dywedodd 93% o'r ymatebwyr eu bod yn nofio mewn dŵr mewndirol – h.y. eu bod wedi nofio mewn un neu fwy o'r canlynol: afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr heb eu rheoli a/neu lynnoedd a chronfeydd dŵr wedi'u rheoli. Felly, dywedodd 7 y cant eu bod wedi nofio yn yr awyr agored mewn dŵr arfordirol yn unig. Yn gyffredinol, roedd pobl a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored yn dewis nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored a dŵr arfordirol – 81 y cant o'r 639 o ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored[9].

3.2 Dywedodd 78 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored eu bod yn nofio gyda phobl eraill ond nid yng nghyd-destun grŵp nofio (h.y. gyda ffrindiau). Dywedodd 46 y cant eu bod yn nofio ar eu pen eu hunain a dywedodd 44 y cant eu bod yn rhan o grŵp nofio. Dywedodd 14 y cant eu bod yn nofio gyda phlant.


3.3 Dywedodd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored eu bod yn nofio yn yr awyr agored drwy gydol y flwyddyn, ac roedd dros 63 y cant yn nofio drwy gydol misoedd y gaeaf[10]. Fodd bynnag, dywedodd y gyfran uchaf o ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored eu bod yn nofio yn ystod y misoedd mwy cynnes[11] (dros 95 y cant).

[9] 639 o ymatebwyr a ddywedodd yn gyson eu bod yn nofio mewn dŵr mewndirol (mae'r fethodoleg yn egluro'r meini prawf ar gyfer cynnwys ac eithrio ymatebwyr).
[10] Tachwedd 67%, Rhagfyr 63%, Ionawr 63%, Chwefror 63%, Mawrth 71%
[11] Mai 95%, Mehefin 98%, Gorffennaf 98%, Awst 98%, Medi 96%

**Arferion a phrofiadau o ran gweithgarwch nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored**

3.4 Wrth ystyried yr ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored yn unig, roedd yr ymatebwyr at ei gilydd yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi bod yn nofio mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr ers sawl blwyddyn – gweler ffigur 3.1. Dywedodd 37 y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi bod yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored ers 5 mlynedd neu fwy a dywedodd 34 y cant eu bod wedi bod yn gwneud hynny ers rhwng 2 a 5 mlynedd.


**Ffigur 3.1:** Ers pryd yr oedd yr ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored wedi bod yn gwneud hynny




*Sylfaen: yr holl ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored – ac eithrio'r sawl a ddarparodd atebion anghyson (639)*

3.5 O'r rheiny a oedd wedi bod yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored, dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn nofio oddeutu unwaith yr wythnos (38 y cant) neu ychydig weithiau bob mis (26 y cant) – gweler ffigur 3.2. Dywedodd 16 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn nofio'r rhan fwyaf o ddyddiau, ond dim ond 1 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored a ddywedodd eu bod yn nofio bob dydd.

**Ffigur 3.2:** Pa mor aml yr oedd yr ymatebwyr yn nofio mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr – yr holl ymatebwyr





*Sylfaen: yr holl ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored – ac eithrio'r sawl a ddarparodd atebion anghyson (639)*

3.6 Y rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored dros ddewis nofio mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr yng Nghymru oedd er mwyn eu hiechyd meddwl a'u lles (85 y cant), am hwyl (71 y cant) ac ar gyfer ymarfer corff a/neu hyfforddi (67 y cant). Ychydig iawn o'r ymatebwyr a nododd 'Doedd nunlle arall i nofio gerllaw' fel rheswm (5 y cant). Dywedodd 40 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn nofio am resymau cymdeithasol.

3.7 O'r 43 o ymatebwyr a ddewisodd 'arall', yr atebion mwyaf cyffredin oedd cysylltiad â byd natur/harddwch naturiol (18 o ymatebion), y ffaith ei fod yn fwy cyfleus/rhad na phyllau nofio (11)[12], y manteision i iechyd (7) a'r ffaith ei fod yn rhan o weithgareddau awyr agored eraill, e.e. heicio, campau dŵr (5).

[12] Roedd yr ymatebion "Yn fwy cyfleus/rhad na phyllau nofio" yn cynnwys mynediad hawdd (5), pris mynediad mewn pyllau nofio (4) a'r ymatebwyr yn dymuno osgoi clorin/cemegolion mewn pyllau nofio (2).

**Ffigur 3.3:** Rhesymau pam yr oedd yr ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored yn nofio mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr




*Sylfaen: yr holl ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored – ac eithrio'r sawl a ddarparodd atebion anghyson (639)*

3.8 Ansawdd dŵr a diogelwch dŵr (e.e. lle diogel i fynd i mewn ac allan) oedd y ffactorau a roddwyd yn y safleoedd uchaf[13] gan yr ymatebwyr ar gyfer trefn pwysigrwydd wrth ddewis ble a phryd i nofio mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr – gweler tabl 3.1. Mae hynny'n dangos bod y bobl a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored o'r farn mai cyflwr y dŵr o safbwynt ei addasrwydd ar gyfer nofio, a diogelwch ffisegol y safle dŵr, oedd bwysicaf. Y ffactor yn y trydydd safle oedd bod y safle'n agos at adref. Y ffactorau a oedd leiaf pwysig i'r ymatebwyr oedd cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a chael achubwr bywyd ar y safle.

3.9 Roedd patrymau'r ymatebion yn dangos nad oedd yr ymatebwyr yn ystyried diogelwch dŵr – o ran cael lle diogel i fynd i mewn i'r dŵr ac o ran bod yn y dŵr – a

[13] Gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi pob ffactor mewn safle o 1-10. Wrth ddadansoddi rhoddir pwysoliad i bob ffactor, lle caiff eitemau sy'n cael eu rhoi yn safle rhif '1' y sgôr uchaf a lle caiff eitemau sy'n cael eu rhoi yn safle rhif '10' y sgôr isaf – gwneir hynny ar gyfer atebion pob un o'r ymatebwyr. Er mwyn pennu trefn y ffactorau (h.y. pa mor bwysig y maent yn cael eu hystyried) ar gyfer yr ymatebwyr yn y sampl, sy'n nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored, cyfrifir cyfanswm sgôr pob ffactor ar gyfer yr ymatebwyr hynny a chaiff y sgorau eu rhoi mewn safle o 1-10 wedyn lle 1 yw'r ffactor sydd â'r sgôr uchaf.

chael achubwr bywyd ar y safle mewn ffordd debyg. Nid yw'n glir pam na fyddent yn gwneud hynny ond, o ystyried bod llawer o'r ymatebwyr yn nofio'n rheolaidd, gallai'r ymatebion adlewyrchu eu hyder yn eu gallu eu hunain i nofio neu'r ffaith eu bod yn ffafrio ffactorau sy'n caniatáu iddynt nofio'n ddiogel yn annibynnol.

**Tabl 3.1:** Ffactorau wedi'u rhoi yn nhrefn eu pwysigrwydd i'r ymatebwyr wrth ddewis ble a phryd i nofio mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr – ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored

| Ffactorau | Safle |
|---|---|
| Ansawdd dŵr | 1 |
| Diogelwch dŵr (lle diogel i fynd i mewn ac allan) | 2 |
| Agos at adref | 3 |
| [Awydd i gael] Lleoliad diarffordd, i ffwrdd o bobl eraill | 4 |
| Maes parcio wrth ymyl | 5 |
| Pobl eraill yn ymdrochi (grwpiau nofio) | 6 |
| Hawdd cyrraedd [Y gallu i gyrraedd safleoedd/tir] | 7 |
| Cyfleusterau ar y safle (toiledau, cyfleusterau newid ac ati) | 8 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | 9 |
| Achubwr bywyd ar y safle | 10 |

*Sylfaen: yr holl ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored – ac eithrio'r sawl a ddarparodd atebion anghyson (639)*

3.10 Dyma'r ffactorau eraill y nododd yr ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored, mewn cwestiwn testun agored dewisol, eu bod yn bwysig: cysylltiad â byd natur/harddwch naturiol (52 allan o 187 o ymatebwyr), cyflwr neu ansawdd y dŵr (34 allan o 187), argaeledd gwybodaeth am ddiogelwch (24 allan o 187), argaeledd gwybodaeth am gyfreithlondeb nofio gwyllt/mynediad cyhoeddus (19 allan o 187). Mae Tabl 3.2 yn dangos y themâu a grybwyllwyd yn yr ymatebion testun agored. Rhoddodd rhai ymatebwyr atebion ac iddynt sawl rhan, felly cafodd 205 o ymatebion gan 187 o ymatebwyr eu codio.

**Tabl 3.2**: Ffactorau ychwanegol y nododd yr ymatebwyr eu bod yn bwysig iddynt wrth ddewis ble a phryd i nofio mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr – ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored


| Cod | Nifer |
|---|---|
| Harddwch naturiol/Cyswllt â byd natur | 52 |
| Cyflwr/Ansawdd y dŵr | 34 |
| Diogelwch/Gwybodaeth | 24 |
| Mynediad cyhoeddus/cyfreithlon | 19 |
| Tywydd/Tymheredd | 16 |
| Hygyrchedd | 10 |
| Pris/Ariannol | 10 |
| Manteision i iechyd | 8 |
| Awydd i fod mewn ardaloedd diarffordd sydd heb eu newid | 7 |
| Tawelwch | 6 |
| Gwybodaeth ddaearyddol (mapiau'r Arolwg Ordnans, cyfesurynnau neu what-3-words) | 6 |
| Dyfnder y dŵr | 3 |
| Safle nad yw'n amharu ar fywyd gwyllt | 4 |
| Lleoliad gyda chyfleusterau | 2 |
| Dim ffilmio'n digwydd | 2 |
| Ddim yn gwybod/deall | 1 |
| Diffibriliwr ar y safle | 1 |
| **Cyfanswm** | **205** |

*Sylfaen: Ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored, a atebodd gwestiwn 11 – dewisol (187)*

3.11 O ran yr offer diogelwch a'r wybodaeth y mae ymatebwyr sy'n nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored yn chwilio amdanynt ar safle dŵr mewndirol (h.y. afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr), dywedodd 57 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn chwilio am wybodaeth am ansawdd y dŵr. Dywedodd oddeutu traean eu bod yn chwilio am fyrddau hysbysu sy'n rhoi gwybodaeth leol (30 y cant) neu am gylch achub bywyd ar y safle (27 y cant). Dywedodd 31 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent yn chwilio am ddim neu nad oeddent yn chwilio am unrhyw un o'r opsiynau a restrwyd.

3.12 O'r 81 o ymatebwyr a ddewisodd 'arall', yr atebion mwyaf cyffredin oedd peryglon sy'n benodol i'r safle, e.e. cerhyntau, pwyntiau mynediad (19 allan o 81), ymchwil a gwybodaeth am yr ardal a defnyddio offer personol (20), a nofio gyda phobl eraill er mwyn cadw'n ddiogel (12).

**Ffigur 3.4:** Offer diogelwch/gwybodaeth y dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn chwilio amdanynt ar safleoedd dŵr mewndirol – ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored




*Sylfaen: yr holl ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored – ac eithrio'r sawl a ddarparodd atebion anghyson rhwng cwestiwn 4 a chwestiwn 7 (639)*

**Rhwystrau i nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored**


3.13 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr beth allai fod yn gwneud nofio mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yn llai deniadol i bobl. 'Pryderon am ansawdd y dŵr' oedd y ffactor yr awgrymodd llawer o'r ymatebwyr (84 y cant) oedd yn gwneud nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored yn llai deniadol i bobl. Y ffactor uchaf ond un oedd 'pryderon am ddiogelwch' (66 y cant), ac yna diffyg gwybodaeth am safleoedd addas (54 y cant) a ddim yn cael defnyddio'r safleoedd nofio dŵr agored (50 y cant). Dim ond 1 y cant o'r ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn meddwl bod unrhyw un o'r ffactorau a restrwyd yn gwneud nofio yn yr awyr agored yn llai deniadol i bobl.

3.14 O'r 97 o ymatebwyr a ddewisodd 'arall' pan ofynnwyd iddynt beth allai fod yn gwneud nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored yn llai deniadol, yr atebion mwyaf cyffredin oedd diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch diogelwch (30 o

ymatebion), y tymheredd oer (24) a rheolau aneglur ynghylch hawl i fynediad/problemau gyda thirfeddianwyr (22).

3.15 Pan ystyriwyd pobl a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored yn unig, ychydig o wahaniaeth a welwyd yng nghanran yr ymatebwyr a nododd ffactorau penodol a fyddai'n gwneud y gweithgaredd yn llai deniadol i bobl: pryderon am ansawdd y dŵr (85 y cant), pryderon am ddiogelwch (67 y cant) a diffyg gwybodaeth am safleoedd addas (54 y cant).

**Ffigur 3.5:** Y rhesymau y mae'r ymatebwyr yn meddwl eu bod yn gwneud nofio mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yn llai deniadol i bobl – yr holl ymatebwyr




*Sylfaen: yr holl ymatebwyr (757)*

**Dynodi dyfroedd mewndirol awyr agored yng Nghymru**


3.16 Roedd gan yr holl ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg lefel dda o ddealltwriaeth ynghylch dynodi dyfroedd ymdrochi: roedd 70 y cant[14] yn deall beth oedd dynodi. Fodd bynnag, dywedodd llai na hanner yr ymatebwyr eu bod yn deall beth oedd yn cael ei fonitro a phryd yr oedd y monitro'n digwydd ar safleoedd dynodedig (48 y cant). At ei gilydd, roedd lefel dda o gefnogaeth ymhlith yr ymatebwyr i'r broses o ddynodi dyfroedd mewndirol awyr agored yn benodol: dywedodd 90 y cant o'r

[14] Yn yr adran hon, mae'r canrannau ar gyfer cytuno yn adlewyrchu cyfanswm yr ymatebion 'Cytuno' a 'Cytuno'n gryf'.

ymatebwyr y byddent yn hoffi gweld mwy o safleoedd dŵr mewndirol megis afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yng Nghymru yn cael eu dynodi'n ddyfroedd ymdrochi.

3.17 O ran ansawdd dŵr, dywedodd cyfran lai o'r holl ymatebwyr eu bod yn teimlo'n hyderus (45 y cant) ynghylch ansawdd y dŵr lle'r oeddent yn nofio. Roedd 43 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored yn benodol yn teimlo'n hyderus ynghylch ansawdd y dŵr lle'r oeddent yn nofio. Roedd mwyafrif yr holl ymatebwyr (94 y cant) yn cytuno y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cael mynediad at ddata ynghylch ansawdd y dŵr.

**Ffigur 3.6:** Cyfraddau cytuno'r ymatebwyr â'r datganiadau a restrwyd – yr holl ymatebwyr




*Sylfaen: yr holl ymatebwyr (757)*

3.18 At hynny, gofynnwyd i'r ymatebwyr sut y byddai'n well ganddynt dderbyn gwybodaeth am ansawdd dŵr. Gwefan (68 y cant) ac ap symudol (67 y cant) oedd y ffyrdd a oedd yn cael eu ffafrio ar gyfer derbyn gwybodaeth am ansawdd y dŵr mewn dyfroedd ymdrochi dynodedig. Roedd 46 y cant o'r ymatebwyr o blaid cael

byrddau gwybodaeth ar y safle, 26 y cant o blaid cael cyswllt cod QR[15] at wybodaeth a 23 y cant o blaid cael arwyddion ar y safle.

3.19 O'r 17 o ymatebwyr a ddewisodd 'arall', yr atebion mwyaf cyffredin oedd cais i beidio â chael arwyddion ar y safle gan y byddai hynny yn difetha'r dirwedd naturiol (4 allan o 17) a chais i wybodaeth gael ei rhannu drwy gyfryngau cymdeithasol, e.e. grwpiau nofio ar Facebook (4).


3.20 Pan ofynnwyd i ymatebwyr nodi'r rhwystrau i ddynodi dyfroedd mewndirol, y rhwystr y cyfeiriwyd ato amlaf gan ymatebwyr oedd pryderon am ansawdd y dŵr (61 y cant). Roedd rhwystrau eraill i ddynodi dyfroedd mewndirol yng Nghymru, a nodwyd gan yr ymatebwyr, yn cynnwys diffyg gwybodaeth am safleoedd addas i'w dynodi (48 y cant), diffyg mynediad at safleoedd nofio dŵr agored (46 y cant) a phryderon am ddiogelwch (44 y cant).

3.21 Roedd yr ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored yn benodol yn rhannu'r safbwyntiau hynny hefyd, a bach iawn oedd y gwahaniaeth rhwng safbwyntiau'r holl ymatebwyr a safbwyntiau'r ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored.

3.22 O'r 68 o ymatebwyr a ddewisodd 'arall', yr atebion mwyaf cyffredin oedd dim mynediad cyfreithlon i'r safle e.e. gyda chaniatâd y perchennog (35 allan o 68), ansawdd y dŵr a diffyg profi rheolaidd (16), a diffyg gwybodaeth sydd ar gael yn hwylus am ddiogelwch/diffyg gwybodaeth am y safle (16).

[15] Mae cod QR yn god y mae modd i beiriant ei ddarllen, ac mae'n cynnwys rhesi o sgwariau du a gwyn a ddefnyddir fel rheol i storio URLs neu wybodaeth arall sydd i'w darllen gan y camera ar ffôn clyfar neu ar ddyfais glyfar arall (cyfieithiad o ddiffiniad ar Google gan Oxford Languages).

**Ffigur 3.7:** Rhwystrau i ddynodi dyfroedd mewndirol yng Nghymru – yr holl ymatebwyr





*Sylfaen: yr holl ymatebwyr (757)*

**Cyfleusterau ac achrediadau ar safleoedd dŵr mewndirol awyr agored dynodedig**

3.23 Yn gyffredinol, mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau ynghylch yr awydd am gyfleusterau. Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr pa gyfleusterau y byddent am eu gweld ar safleoedd dŵr mewndirol awyr agored dynodedig yng Nghymru, dywedodd 49 y cant o'r ymatebwyr na fyddent am gael unrhyw gyfleusterau a bod yn well ganddynt fod y safle'n naturiol. Y cyfleusterau a ddewiswyd yn fwy aml oedd maes parcio (48 y cant), mynediad (33 y cant) a thoiledau (32 y cant).

3.24 O'r 56 o ymatebwyr a ddewisodd 'arall', yr ateb mwyaf cyffredin gan ymatebwyr oedd cael amrywiaeth o leoliadau – rhai gyda chyfleusterau ar gyfer darparu mynediad a hwyluso defnydd a rhai wedi'u gadael yn eu cyflwr naturiol heb unrhyw gyfleusterau (21 allan o 56). Dywedodd 12 o'r ymatebwyr nad oeddent am gael unrhyw gyfleusterau a dywedodd 9 y byddent yn hoffi gweld safleoedd gyda chyfleusterau. ond ni wnaethant nodi pa rai. Dywedodd 9 o'r ymatebwyr y byddai safleoedd gyda chyfleusterau yn helpu nofwyr anabl i gael mynediad i safleoedd ymdrochi mewn dŵr mewndirol.

**Ffigur 3.8:** Cyfleusterau y byddai'r ymatebwyr am eu gweld ar safleoedd dŵr mewndirol dynodedig yng Nghymru – yr holl ymatebwyr




*Sylfaen: yr holl ymatebwyr (757)*

3.25 O ran achrediadau ar safleoedd dŵr mewndirol awyr agored dynodedig, dywedodd 51 y cant o'r ymatebwyr eu bod am i safleoedd gael achrediadau'r Faner Las[16]. Dywedodd 37 y cant o'r ymatebwyr eu bod am gael achrediadau diogelwch megis 'SAFE CYMRU' a dywedodd 15 y cant eu bod am weld achrediad y Cynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr. Dywedodd 26 y cant nad oeddent yn gweld yr angen am unrhyw achrediadau.

3.26 O'r 57 o ymatebwyr a ddewisodd 'arall', yr ateb mwyaf cyffredin oedd 'Ddim yn gwybod' gyda'r ymatebwyr yn mynegi diffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth ynghylch yr achrediad y cyfeiriwyd ato a'r achrediadau eraill sydd ar gael (28 allan o 57). Yr atebion mwyaf cyffredin wedi hynny oedd ansawdd y dŵr a diffyg profi rheolaidd (17), sy'n amlygu awydd yr ymatebwyr am achrediad a fydd yn darparu profion cyfredol ac aml ar ansawdd y dŵr.

[16] Dylid nodi nad yw achrediadau'r Faner Las ar gael ar hyn o bryd ar gyfer dyfroedd mewndirol.

**Ymatebion ansoddol ychwanegol cyffredinol**

3.27 Roedd y cwestiwn olaf yn rhoi cyfle i'r ymatebwyr grybwyll unrhyw beth yr oeddent yn teimlo nad oedd wedi cael sylw yn yr arolwg – dewisodd 148 o'r ymatebwyr roi sylwadau ychwanegol, gan gynnwys atebion ac iddynt sawl rhan. Cafodd yr ymatebion eu codio i themâu perthnasol os oedd hynny'n bosibl. Gwnaeth llawer ddefnyddio'r cyfle hwn i ailadrodd safbwyntiau a archwiliwyd mewn cwestiynau blaenorol.

3.28 Yn benodol, dewisodd 63 o'r ymatebwyr fynegi eu pryderon ynghylch yr angen am ddŵr o ansawdd uchel ac am fwy o brofi, a chyfeiriodd llawer o bobl at bryderon ynghylch carthion yn cael eu gollwng i mewn i ddŵr:

*"Rwyf wrth fy modd yn nofio mewn dŵr gwyllt, ond ansawdd y dŵr yw fy mhryder pennaf o bell ffordd. Rwy'n poeni bod cwmnïau dŵr yn gollwng carthion ac yn llygru ein dyfroedd, sy'n eu gwneud yn anniogel i ni nofio ynddynt ac yn niweidio bywyd gwyllt."*

Ymatebydd i'r arolwg

3.29 Dilynwyd hynny gan 42 o ymatebwyr a gyfeiriodd at broblemau'n ymwneud â'r gallu i ddefnyddio'r safle yn gyfreithlon, gan ddweud nad oedd tirfeddianwyr preifat neu Dŵr Cymru yn caniatáu mynediad. Yn ddiddorol, dywedodd rhai ymatebwyr y gallai pryderon ynghylch atebolrwydd perchnogion am ddiogelwch ffisegol y tu hwnt i gyflwr y dŵr olygu ei bod yn anodd cael mynediad:

*"Yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yw bod tirfeddianwyr yn ofni problemau'n ymwneud ag atebolrwydd wrth i bobl nofio ar eu tir. Mae hynny'n wir hefyd am gronfeydd dŵr a chwmnïau dŵr. Er enghraifft, mae gan Lyn Efyrnwy lawer o ardaloedd nofio diogel ond nid yw nofio'n cael ei ganiatáu oherwydd y canfyddiad bod hynny'n beryglus."*

Ymatebydd i'r arolwg

3.30 Cododd nifer fach o ymatebwyr y pwynt nad yw Dŵr Cymru yn caniatáu i'r cyhoedd nofio mewn cronfeydd dŵr a gaiff eu rheoli ganddo:

*"Mae Dŵr Cymru yn gyndyn iawn o ganiatáu i bobl nofio mewn dŵr agored yn eu cronfeydd dŵr, sy'n drueni. Gellid defnyddio'r ardaloedd hynny'n fwy helaeth."*

Ymatebydd i'r arolwg

3.31 Mynegodd 21 o'r ymatebwyr bryderon am y cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael mynediad i safleoedd wedi iddynt gael eu dynodi. Er enghraifft, dywedodd 8 o'r 21 o ymatebwyr hynny fod yn well ganddynt i leoliadau barhau'n ddiarffordd heb unrhyw gyfleusterau:

*"Gogoniant llawer o ardaloedd dŵr mewndirol heb gyfleusterau yw'r ffaith nad ydynt yn fannau prysur ac nad oes torfeydd yno o hyd. Mae hynny'n golygu eu bod yn apelio at y rheiny ohonom sy'n nofio er mwyn ein lles meddwl. Hoffwn weld mwy o wybodaeth am ansawdd y dŵr ond byddwn yn poeni ynghylch ychwanegu gormod o gyfleusterau yn rhai o'r ardaloedd mwy diarffordd sy'n ardaloedd o harddwch naturiol."*

Ymatebydd i'r arolwg

3.32 Yn y cyfamser, roedd pobl eraill yn poeni bod cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael mynediad i safleoedd yn bygwth cynefinoedd naturiol:

*"Rwy'n gobeithio nad yw dynodi dŵr yn ddŵr ymdrochi mewndirol yn golygu bod y lle'n mynd yn rhy llawn a bod niwed yn cael ei achosi i gynefin naturiol."*

Ymatebydd i'r arolwg

3.33 Awgrymodd naw o'r ymatebwyr amrywiaeth o leoliadau i'w dynodi, a allai fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a fynegwyd uchod gan ymatebwyr:

*"Rwy'n credu bod angen cael amrywiaeth o wahanol fathau o ddŵr ymdrochi mewndirol/achrediadau, fwy na thebyg – rhai mwy ffurfiol gyda chyfleusterau, y bwriedir iddynt ddenu nifer fawr o bobl, a rhai mwy naturiol nad ydynt yn cael eu hysbysebu'n ormodol oherwydd nad ydych am gael torfeydd yno."*

Ymatebydd i'r arolwg

3.34 Defnyddiodd nifer o ymatebwyr y blwch testun rhydd i awgrymu rhai ardaloedd yr hoffent eu gweld yn cael eu dynodi. Roedd y rheiny'n cynnwys:

- Cwm-parc
- Llynnoedd Cosmeston
- Cronfa ddŵr Llys-faen
- Afon Taf
- Bae Caerdydd
- Afon Wysg
- Doc y Gogledd Llanelli
- Cronfeydd dŵr ym Mannau Brycheiniog

- Afon Ogwr

3.35 Nid oedd yr arolwg yn gynrychioliadol ac nid oedd yn cynnwys cwestiwn penodol ar ddynodi safleoedd, felly unig ddiben y rhestr hon yw dangos y mathau o safleoedd a awgrymwyd yn yr ymatebion i'r arolwg.

## 4. Casgliadau

4.1 Nid oedd yr arolwg hwn yn cynnwys sampl gynrychioliadol o bobl sy'n nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored, gan nad yw demograffeg a nodweddion nofwyr yn hysbys. Roedd hynny'n golygu ei bod yn anodd datblygu ffrâm samplu ddilys. Yn hytrach, felly, nod yr arolwg oedd ymgysylltu â chynifer o gyfranogwyr ag a oedd yn bosibl. Roedd y gyfradd ymateb yn uchel (cafwyd 757 o ymatebion cyflawn), sy'n rhoi rhyw hyder bod y canfyddiadau'n adlewyrchu o leiaf rhywfaint o'r amrywiaeth o safbwyntiau sy'n bodoli ymhlith pobl sy'n nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored.

4.2 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored mewn dyfroedd mewndirol, h.y. mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr heb eu rheoli a/neu lynnoedd neu gronfeydd dŵr wedi'u rheoli. Roedd dros 80 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored hefyd yn nofio mewn dyfroedd arfordirol. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored yn fwyaf tebygol o nofio gyda phobl eraill ond nid yng nghyd-destun grŵp nofio (h.y. gyda ffrindiau). Roedd bron eu hanner yn nofio ar eu pen eu hunain ac roedd dau o bob pump yn nofio'n rhan o grŵp nofio. Roedd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored yn nofio yn yr awyr agored drwy gydol y flwyddyn.

4.3 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored yn fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored unwaith yr wythnos neu ychydig weithiau bob mis. Y prif resymau dros ddewis nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored oedd er mwyn eu hiechyd meddwl a'u lles ac am hwyl. Mae hynny'n awgrymu y gallai hyrwyddo manteision nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored i iechyd meddwl fod yn ffordd effeithiol o annog pobl eraill i gymryd rhan.

4.4 Y ffactorau pwysicaf i'r ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored wrth ddewis ble i nofio oedd ansawdd dŵr a diogelwch dŵr (y tu hwnt i faterion sy'n ymwneud â chyflwr neu ansawdd) yn ogystal â safleoedd sy'n agos at adref neu'n lleol i'r ymatebwyr. Gwybodaeth am ansawdd dŵr oedd y math o wybodaeth y byddai ymatebwyr a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored yn fwyaf tebygol o chwilio amdani ar safleoedd dŵr mewndirol awyr agored. At

hynny, roedd yr ymatebwyr yn fwyaf tebygol o ddweud mai pryderon am ansawdd dŵr fyddai'n gwneud nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored yn llai deniadol i bobl.

4.5 Roedd llai na hanner yr ymatebwyr yn teimlo'n hyderus ynghylch ansawdd y dŵr lle'r oeddent yn nofio ac roedd gan y rhan fwyaf ohonynt ddiddordeb mewn gweld mwy o ddyfroedd mewndirol awyr agored yn cael eu dynodi'n ddyfroedd ymdrochi ac mewn cael mynediad i ddata am ansawdd y dŵr mewn ardal. Roedd ymatebwyr yn ffafrio cael mynediad i wybodaeth am ansawdd y dŵr ar-lein – drwy wefan neu ap symudol.

4.6 O ran cyfleusterau ar y safle, bernid mai cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a chael achubwr bywyd ar y safle oedd leiaf pwysig. Pan ofynnwyd am gyfleusterau ar safleoedd dŵr mewndirol awyr agored dynodedig, yr ateb mwyaf cyffredin gan ymatebwyr oedd nad oeddent am weld unrhyw gyfleusterau. Roedd cael maes parcio'n fwy poblogaidd na chael cyfleusterau eraill. Pan roddwyd cyfle iddynt wneud hynny, tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cael ardal dawel i nofio ynddi sydd wedi'i chysylltu â harddwch byd natur. Roedd rhai o'r farn y gallai ychwanegu cyfleusterau at safleoedd, neu hysbysebu'r safle fel ardal i ymweld â hi, olygu bod mwy o bobl yn mynd i'r safle, a allai achosi niwed i'r cynefin naturiol a gwneud y profiad yn llai pleserus i'r sawl sy'n nofio yno eisoes. Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr arolwg hwn yn awgrymu bod angen sicrhau cydbwysedd efallai rhwng dynodi safleoedd – er mwyn sicrhau bod ansawdd y dŵr yn uchel i'r sawl sy'n nofio yno eisoes – a hyrwyddo defnydd o'r safleoedd hynny i grŵp mwy o bobl. Cynigiodd nifer fach o ymatebwyr ateb a oedd yn golygu dynodi nifer o safleoedd – rhai gyda mwy o gyfleusterau a rhai sy'n cael eu gadael 'heb eu difetha'.

4.7 O ran rhwystrau i ddynodi, 'pryderon am ansawdd y dŵr yn gyffredinol ar safleoedd' oedd y rhwystr mwyaf cyffredin a nodwyd, ac wedi hynny diffyg safleoedd addas a diffyg mynediad at safleoedd nofio dŵr agored. Cafodd y broblem hon sy'n ymwneud â mynediad ei disgrifio mewn sylwadau ansoddol hefyd. Yn benodol, mynegodd ymatebwyr rwystredigaeth ynghylch hawliau i gael mynediad i dir ac ynghylch tirfeddianwyr (preifat a Dŵr Cymru) sy'n gwrthod caniatáu nofio ar eu safleoedd. Ni chafodd tirfeddianwyr eu hystyried yn rhan o'r arolwg hwn, felly gallai fod yn fuddiol ymgysylltu ymhellach â nhw.

4.8 Roedd gan lawer o ymatebwyr ddiddordeb mewn cael rhyw fath o achrediad ar safleoedd dynodedig – y mwyaf poblogaidd o'r rheiny oedd achrediad y Faner Las. Ar hyn o bryd, nid oes proses ar gael ar gyfer rhoi achrediad y Faner Las i ddŵr mewndirol awyr agored. Mae'n bosibl mai hwnnw oedd yr achrediad mwyaf poblogaidd am ei fod yn adnabyddus, sy'n dangos mor bwysig yw ymddiriedaeth a dealltwriaeth yng nghyswllt yr achrediadau a ddefnyddir ar gyfer dŵr mewndirol awyr agored.

4.9 Y math mwyaf poblogaidd o offer diogelwch neu wybodaeth yr oedd ymatebwyr am ei gael oedd gwybodaeth am ansawdd dŵr. Mae cyfle, felly, i sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael yn hwylus ar safleoedd dŵr mewndirol awyr agored.

4.10 Mae'r ymchwil hon yn cyfrannu i'r sylfaen dystiolaeth gyffredinol ar gyfer cefnogi syniadau Llywodraeth Cymru ynghylch dynodi dŵr mewndirol awyr agored, monitro ansawdd dŵr a darparu arweiniad. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflawni ymchwil bellach i ategu penderfyniadau yn y dyfodol er mwyn cefnogi'r ymrwymiad a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu i ddynodi mwy o ddyfroedd mewndirol at ddefnydd hamdden.

## Atodiad A – Arolwg Nofwyr Mewndirol Awyr Agored

Roedd y diffiniad yn berthnasol i 'nofwyr mewndirol awyr agored' at ddiben yr arolwg hwn yn cyfeirio at bobl sy'n nofio mewn lleoliadau fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yng Nghymru.

Mae 'dŵr ymdrochi dynodedig' fel y'i disgrifir o fewn Rheoliadau Dŵr Ymdrochi yn ddŵr wyneb y tu allan lle mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl i nifer fawr o bobl ymdrochi ynddo. Mae'r disgwyliad hwn yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol ac unrhyw isadeiledd neu gyfleusterau a ddarperir, neu fesurau eraill a gymerwyd, i hyrwyddo ymdrochi yn y dyfroedd hynny. Os bydd dŵr mewndirol awyr agored yn cael ei ddynodi'n ddŵr ymdrochi, mae ansawdd y dŵr yn cael ei brofi gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn flynyddol yn ystod y tymor ymdrochi (15 Mai - 30 Medi). Mae dyfroedd ymdrochi dynodedig yn cael dosbarthiad dŵr ymdrochi blynyddol o ardderchog, da, digonol neu wael, yn seiliedig ar ganlyniadau sampl ansawdd y dŵr.

Mae CNC hefyd yn cynhyrchu a chyhoeddi proffil dŵr ymdrochi ar gyfer pob dŵr ymdrochi dynodedig. Mae'r proffiliau yn nodi'r gwaith y mae CNC yn ei wneud gyda phartneriaid i'w gynnal a gwella ansawdd dŵr yn y dyfroedd ymdrochi dynodedig hyn.

C1. Cadarnhewch y canlynol:
- o Rwyf wedi darllen a deall yr hysbysiad preifatrwydd.

**Manylion sylfaenol**

C2. Lleoliad – Ble ydych chi'n byw: (Dewiswch un)

o Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

o Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

o Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

o Cyngor Caerdydd

o Cyngor Sir Caerfyrddin

o Cyngor Sir Ceredigion

o Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

o Cyngor Sir Ddinbych

o Cyngor Sir y Fflint

o Cyngor Gwynedd

o Cyngor Sir Ynys Môn

o Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

o Cyngor Sir Fynwy

o Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

o Cyngor Dinas Casnewydd

o Cyngor Sir Penfro

o Cyngor Sir Powys

o Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

o Cyngor Dinas a Sir Abertawe

o Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

o Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

o Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

C3. Nodwch y categori oedran sy'n berthnasol i chi (Dewiswch un)

- ○ Hyd at 18
- ○ 18 – 24
- ○ 25 – 30
- ○ 31 – 40
- ○ 41 – 50
- ○ 51 – 60
- ○ 61 – 70
- ○ 71 – 80
- ○ Dros 80

**Gweithgareddau hamdden**

Atebwch y cwestiynau canlynol ar gyfer y nofio awyr agored rydych chi'n ei wneud:

C4. Ble ydych chi'n nofio yn yr awyr agored (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- □ Arfordir
- □ Afon
- □ Llyn/cronfa ddŵr heb ei reoli (h.y. lleoliad heb gyfleusterau)
- □ Llyn/cronfa ddŵr wedi'i reoli (h.y. lleoliad gyda chyfleusterau)

C5. Ydych chi'n gwneud y gweithgareddau hyn ar eich pen eich hun, neu fel rhan o grŵp neu deulu gyda phlant? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ◻ Ar ben eich hun
- ◻ Rhan o grŵp nofio
- ◻ Gydag eraill (ond ddim yn cyfrif hwn fel grŵp nofio) e.e. ffrindiau
- ◻ Gyda phlant

C6. Ym mha fisoedd ydych chi'n nofio yn yr awyr agored yng Nghymru? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ◻ Ionawr
- ◻ Chwefror
- ◻ Mawrth
- ◻ Ebrill
- ◻ Mai
- ◻ Mehefin
- ◻ Gorffennaf
- ◻ Awst
- ◻ Medi
- ◻ Hydref
- ◻ Tachwedd
- ◻ Rhagfyr

**Nofio yn yr awyr agored**

Atebwch y cwestiynau canlynol ar gyfer y nofio rydych chi'n ei wneud mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr:

C7. Ers pryd ydych chi wedi bod yn nofio mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr? (Dewiswch un)

- ○ Nid wyf wedi nofio mewn afon, llyn na chronfa ddŵr eto ond mae'n rhywbeth yr hoffwn ei wneud
- ○ Llai na blwyddyn
- ○ 1 i 2 flynedd
- ○ 2 i 5 mlynedd
- ○ 5 mlynedd neu fwy

C8. Pa mor aml ydych chi'n nofio yn yr awyr agored mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr yng Nghymru? (Dewiswch un)

- ○ Bob dydd
- ○ Rhan fwyaf o ddyddiau
- ○ Oddeutu unwaith yr wythnos
- ○ Ychydig weithiau bob mis
- ○ Oddeutu unwaith y mis
- ○ Bob ychydig fisoedd
- ○ Ychydig weithiau y flwyddyn

C9. Am ba un o'r rhesymau canlynol ydych chi'n dewis nofio mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr yng Nghymru? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- □ Ar gyfer ymarfer corff a/neu hyfforddi
- □ Am hwyl
- □ Ar gyfer fy iechyd meddwl a lles
- □ Am resymau cymdeithasol/Rwy'n rhan o glwb/grŵp/sefydliad nofio awyr agored
- □ Roeddwn ar wyliau
- □ Doedd nunlle arall i nofio gerllaw
- □ Arall (nodwch ble) ________________________________

C10. Rhowch yr elfennau canlynol yn nhrefn eu pwysigrwydd ichi wrth ddewis ble a phryd i nofio mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr? (Rhowch 1-9, gydag 1 y pwysicaf)

- □ Ansawdd Dŵr
- □ Diogelwch Dŵr (lle diogel i fynd i mewn ac allan)
- □ Lleoliad diarffordd, i ffwrdd o bobl eraill
- □ Pobl eraill yn ymdrochi (Grwpiau nofio)
- □ Agos at adref
- □ Maes parcio wrth ymyl
- □ Trafnidiaeth gyhoeddus
- □ Cyfleusterau ar y safle (toiledau, cyfleusterau newid at ati)
- □ Achubwr bywyd ar y safle
- □ Hawdd cyrraedd

C11. A oes unrhyw ffactorau eraill heb eu cynnwys ar y rhestr yng nghwestiwn 10 sy'n bwysig i chi wrth ddewis ble a phryd i nofio mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr? (testun agored)

C12. Beth sy'n ei gwneud yn llai deniadol ichi nofio yn yr awyr agored mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr yng Nghymru? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ◻ Pryderon am ddiogelwch
- ◻ Pryderon am ansawdd y dŵr
- ◻ Anodd cyrraedd y safleoedd
- ◻ Diffyg gwybodaeth am safleoedd addas
- ◻ Ychydig o gyfleusterau ar y safleoedd (e.e. dim toiledau, caffis, cyfleusterau newid)
- ◻ Dim digon o safleoedd nofio awyr agored yn agos
- ◻ Dim digon o safleoedd nofio awyr agored ledled Cymru
- ◻ Ddim yn cael defnyddio'r safleoedd nofio awyr agored
- ◻ Dim un o'r rhain / dim
- ◻ Arall (nodwch beth) ___________________________________

C13. Pa offer diogelwch/gwybodaeth ydych chi'n chwilio amdano mewn lleoliadau nofio awyr agored (e.e. afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr) (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ◻ Cylch achub bywyd
- ◻ Achubwyr bywyd
- ◻ Ffôn argyfwng
- ◻ Lleoliad 'what3words' –Tag/lleolwr ar arwydd ar y safle
- ◻ Gwybodaeth am ansawdd y dŵr
- ◻ Byrddau Hysbysu yn rhoi gwybodaeth leol
- ◻ Dim un o'r rhain/dim
- ◻ Arall (nodwch beth) __________________________________

**Dynodi dyfroedd ymdrochi yng Nghymru**

C14. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dwi'n deall beth yw dyfroedd ymdrochi dynodedig | | | | | | |
| Dwi'n teimlo mod i'n deall beth sy'n cael ei fonitro a phryd mae'r monitro yn digwydd ger dyfroedd ymdrochi dynodedig | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hoffwn weld safleoedd dyfroedd mewndirol fel afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yn cael eu dynodi fel dyfroedd ymdrochi | | | | | | |
| Nid oes digon o safleoedd dŵr mewndirol (e.e. afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr) sy'n addas i ymdrochi ynddynt yng Nghymru | | | | | | |
| Dwi'n hyderus bod safon y dŵr ble rydw i'n ymdrochi o safon addas | | | | | | |
| Byddai gennyf ddiddordeb cael mynediad at ddata ynghylch safon dŵr mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yng Nghymru | | | | | | |

C15. Beth yn eich barn chi yw'r rhwystrau i ddynodi dyfroedd mewndirol yng Nghymru? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Ddim yn gwybod beth yw ystyr dynodi na'r broses ymgeisio
- ☐ Diffyg mynediad at safleoedd nofio dŵr agored
- ☐ Dim llawer o gyfleusterau (e.e. toiledau, caffi, cyfleusterau newid etc.) ar safleoedd
- ☐ Diffyg gwybodaeth am safleoedd addas
- ☐ Pryderon am ddiogelwch
- ☐ Pryderon am ansawdd y dŵr
- ☐ Arall (nodwch) ___________________________________

C16. Sut byddai'n well gennych dderbyn gwybodaeth am ansawdd dŵr mewn dyfroedd ymdrochi dynodedig? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

□ Ar fyrddau gwybodaeth ar y safle

□ Arwyddion ar y safle

□ Cyswllt QR at wybodaeth

□ Gwefan

□ Ap symudol

□ Arall (nodwch) ___________________________________

C17. Pe bai dŵr mewndirol awyr agored yn cael ei ddynodi'n ddŵr ymdrochi yng Nghymru pa gyfleusterau, os o gwbl, fyddech chi eisiau eu gweld yno? (Dewiswch bopeth sy'n berthnasol)

□ Hawdd ei gyrraedd

□ Cyfleusterau llogi (e.e. ar gyfer llogi canŵau neu badlfyrddau)

□ Caffi / bwyd a diod

□ Maes Parcio

□ Cyfleusterau newid

□ Pontŵn (llwyfan glanio arnofiol sy'n rhoi mynediad i gerdded)

□ Toiledau

□ Safleoedd sy'n addas i gadeiriau olwyn

□ Dim – byddai'n well gen i iddo fod yn naturiol heb unrhyw gyfleusterau

□ Ddim yn berthnasol i mi / dim diddordeb

□ Ddim yn gwybod

□ Arall (nodwch) _____________________________________

C18. Pa achrediadau hoffech chi eu gweld gan ddŵr ymdrochi mewndirol dynodedig? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

□ Baner Las

□ Y Cynllun Sicrhau Ansawdd Atyniad Ymwelwyr (VAQAS)


□ Achrediadau diogelwch, megis achrediad 'SAFE CYMRU'

□ Dim, ni welaf yr angen

□ Arall (nodwch) _______________________________

C19. Defnyddiwch y gofod hwn ar gyfer unrhyw sylwadau eraill ar ddynodi dyfroedd ymdrochi mewndirol

## Atodiad B – Oedran ymatebwyr




*Sylfaen: yr holl ymatebwyr (757)*

## Atodiad C – Ymatebwyr yn ôl awdurdod lleol o gymharu â data Cyfrifiad 2021

| Awdurdod Lleol | Ymatebwyr i'r arolwg | Ffigurau Cyfrifiad 2021 | Gwahaniaeth (pwyntiau canran) |
|---|---|---|---|
| Abertawe | 6% | 8% | -2 |
| Blaenau Gwent | 2% | 2% | 0 |
| Bro Morgannwg | 6% | 4% | 2 |
| Caerdydd | 11% | 12% | -1 |
| Caerffili | 3% | 6% | -3 |
| Casnewydd | 3% | 5% | -2 |
| Castell-nedd Port Talbot | 4% | 5% | -1 |
| Ceredigion | 6% | 2% | 4 |
| Conwy | 4% | 4% | 0 |
| Gwynedd | 9% | 4% | 5 |
| Merthyr Tudful | 2% | 2% | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 3% | 5% | -2 |
| Powys | 7% | 4% | 3 |
| Rhondda Cynon Taf | 5% | 8% | -3 |
| Sir Benfro | 4% | 4% | 0 |
| Sir Ddinbych | 2% | 3% | -1 |
| Sir Fynwy | 8% | 3% | 5 |
| Sir Gaerfyrddin | 6% | 6% | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sir y Fflint | 1% | 5% | -4 |
| Torfaen | 2% | 3% | -1 |
| Wrecsam | 1% | 4% | -3 |
| Ynys Môn | 4% | 2% | 2 |

## Atodiad D: Dadansoddiad o'r ymatebwyr ar gyfer pob cwestiwn

| Cwestiwn | Grŵp ymatebwyr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|
| C2. Lleoliad – Ble ydych chi'n byw? | Yr holl ymatebwyr | 757 |
| C3. Nodwch y categori oedran sy'n berthnasol i chi | Yr holl ymatebwyr | 757 |
| C4. Ble ydych chi'n nofio yn yr awyr agored? | Yr holl ymatebion cyson – Pobl a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored ac mewn dŵr arfordirol | 688 |
| C5. Ydych chi'n gwneud y gweithgareddau hyn ar eich pen eich hun, neu fel rhan o grŵp neu deulu gyda phlant? | *Yr holl ymatebwyr* | *757* |
| C6. Ym mha fisoedd ydych chi'n nofio yn yr awyr agored yng Nghymru? | *Yr holl ymatebwyr* | *757* |
| C7. Ers pryd ydych chi wedi bod yn nofio mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr? | Pobl a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored – ymatebion cyson | 639 |
| C8. Pa mor aml ydych chi'n nofio yn yr awyr agored mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr yng Nghymru? | Pobl a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored – ymatebion cyson | 639 |

| | | |
|---|---|---|
| C9. Am ba un o'r rhesymau canlynol ydych chi'n dewis nofio mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr yng Nghymru? | Pobl a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored – ymatebion cyson | 639 |
| C10. Rhowch yr elfennau canlynol yn nhrefn eu pwysigrwydd ichi wrth ddewis ble a phryd i nofio mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr | Pobl a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored – ymatebion cyson | 639 |
| C11. A oes unrhyw ffactorau eraill heb eu cynnwys ar y rhestr yng nghwestiwn 10 sy'n bwysig i chi wrth ddewis ble a phryd i nofio mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr? | Yr holl ymatebwyr a atebodd (cwestiwn dewisol) | 187 |
| C12. Beth sy'n ei gwneud yn llai deniadol ichi nofio yn yr awyr agored mewn afonydd, llynnoedd neu gronfeydd dŵr yng Nghymru? | Yr holl ymatebwyr | 757 |
| C13. Pa offer diogelwch/gwybodaeth ydych chi'n chwilio amdano mewn lleoliadau nofio awyr agored (e.e. afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr)? | Pobl a oedd yn nofio mewn dŵr mewndirol awyr agored – ymatebion cyson | 639 |
| C14. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? (Dynodi Dŵr Mewndirol Awyr Agored) | Yr holl ymatebwyr | 757 |
| C15. Beth yn eich barn chi yw'r rhwystrau i ddynodi dyfroedd mewndirol yng Nghymru? | Yr holl ymatebwyr | 757 |

| | | |
|---|---|---|
| C16. Sut byddai'n well gennych dderbyn gwybodaeth am ansawdd dŵr mewn dyfroedd ymdrochi dynodedig? | Yr holl ymatebwyr | 757 |
| C17. Pe bai dŵr mewndirol awyr agored yn cael ei ddynodi'n ddŵr ymdrochi yng Nghymru pa gyfleusterau, os o gwbl, fyddech chi eisiau eu gweld yno? | Yr holl ymatebwyr | 757 |
| C18. Pa achrediadau hoffech chi eu gweld gan ddŵr ymdrochi mewndirol dynodedig? | Yr holl ymatebwyr | 757 |
| C19. Defnyddiwch y gofod hwn ar gyfer unrhyw sylwadau eraill ar ddynodi dyfroedd ymdrochi mewndirol | Yr holl ymatebwyr a atebodd (cwestiwn dewisol) | 148 |